


SEREN



Ceisiadau Ysgolion Haf 2022 Seren-Coleg yr Iesu Rhydychen

Gwybodaeth ar gyfer darpar ymgeiswyr



Helo! Rydym ni wrth ein boddau eich bod yn ystyried ymgeisio i un o'n ysgolion haf yn 2022! Rydym wedi llunio'r canllaw hwn i egluro y broses ymgeisio ac i'ch helpu i ddeall beth i'w ddisgwyl os ydych yn cael cynnig lle. Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi trosolwg o bob rhaglen; mae manylion pellach eto i'w cadarnhau a bydd mwy o wybodaeth yn cael ei yrru at ymgeiswyr llwyddiannus yn agosach at yr amser. Gallwch ddarganfod gwybodaeth ar gyfer y ddwy raglen: yr [Ysgol Haf Ryngwladol Ar-lein Seren](#) ac [Ysgol Haf Breswyl Coleg yr Iesu](#).

Beth yw beth?

Mae'r ysgolion haf ar gyfer dysgwyr Academi Seren sydd ym mlwyddyn 12 ar hyn o bryd ac yn mynychu ysgol neu goleg gwladwriaeth sy'n cymryd rhan yn rhaglen Seren. Mae'r ddwy ysgol haf wedi eu cynllunio gyda'r bwriad o hysbysu a darparu gwybodaeth a gwella cynnydd unigolion sy'n academiaidd dalentog o gefndiroedd difreintiedig yng Nghymru i Rydychen a phrifysgolion cystadleuol eraill. Er mwyn sicrhau bod yr ysgolion haf ar gael ar gyfer cymaint o bobl â phosib, ni allwch ymgeisio i fwy nag un rhaglen, felly ystyriwch pa opsiwn fyddai orau i chi yn ofalus.

Ysgol Haf Ryngwladol Ar-lein Seren

Bydd yr [Ysgol Haf Ryngwladol Ar-lein Seren](#) yn canolbwyntio ar eich pwnc, gyda phrojectau yn seiliedig ar senarios a gaiff eu cyflwyno i arbenigwyr yn Llywodraeth Cymru. Y thema cyffredinol fydd "Gwneud Newid / Make a Change". Mae manylion llawn i'w cadarnhau ond bydd sylw yn cael ei roi i'r pedwar maes canlynol:

Ffrydiau Pwnc	Project
<i>Dyniaethau</i>	<p><i>Datblygwch air neu ymadrodd newydd sydd yn hyrwyddo cynhwysiant. Defnyddiwch eich gair neu ymadrodd newydd mewn darn ysgrifenedig. Gall hyn fod yn draethawd byr, neu yn ddarn o ysgrifennu creadigol megis cerdd.</i></p> <p><i>Mae ieithoedd wedi eu datblygu a'u defnyddio i uno unigolion mewn amser o anobaith, ond ar yr un pryd, maent wedi bod yn ffordd i wahanu dynoliaeth yng nghysgod Tŵr Babel. Allwn ni ddefnyddio ieithoedd i bontio'r gwahaniaethau hyn?</i></p> <p><i>Byddwn yn cynnig darlithoedd a seminarau gan gynnwys y canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <i>– Ar hanes gobaith, o focs Pandora i Barack Obama.</i> <i>– Ar ddatblygiad geiriau yn y gorffennol fel arfau i wahanu a chau pobl allan.</i> <i>– Yr areithiau a'r nofelau gorau wnaeth ddod â phobl ynghŷd.</i>
<i>Mathemateg, Ffiseg a Gwyddorau Bywyd</i>	<i>Disgrifiwch sut all problem gymdeithasol neu feddygol gael ei datrys gyda mathemateg, ffiseg neu beirianneg gymhwysol.</i>

	<p>Mae mathemateg, ffiseg a gwyddorau bywyd wedi bod yn angenrheidiol ar gyfer datrys problemau mewn nifer o feysydd fel iechyd cyhoeddus a hyd yn oed cynhwysiant cymdeithasol. Ble ydych chi'n meddwl all pobl wneud mwy o welliannau, neu ddarganfod syniadau hollol newydd?</p> <p>Byddwn yn cynnig darlithoedd a seminarau gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Defnydd o fathemateg a ffiseg yn y Manhattan Project. - Arloesi mewn peirianeg biofeddygol. - Modelu heintiau yn fathemategol. - Defnyddio cyfrifiadureg i fapio y genom a'r proteom.
<p>Meddygaeth a gwyddorau biofeddygol</p>	<p>Disgrifiwch ymyriad anfferyllol i wella iechyd cyhoeddus.</p> <p>Yn ystod y pandemig, cafodd sawl ymyriad anfferyllol (NPI, non-pharmaceutical intervention) eu defnyddio i achub bywydau (megis gwisgo mygydau ac ymbellhau cymdeithasol). Allwch chi gynnig unrhyw NPI a fyddai'n gwella bywydau ac nid eu hachub yn unig? Wrth gwrs, mae cysgu, bwyta ayb yn well yn bwysig, ond mae'n rhaid i ni fod yn greadigol oherwydd mae rhannau o iechyd cyhoeddus yn dirywio yn ein cymdeithas sy'n heneiddio.</p> <p>Byddwn yn cynnig darlithoedd a seminarau gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Biofeddygaeth a seicoleg ymyriadau fferyllol ac anfferyllol. - Cyfundrefn a gweithredu cyrff iechyd cyhoeddus. - Defnydd ymyriadau llawfeddygol newydd. - Biodechnoleg a thechnoleg gwisgadwy. - Micro-ddosio sylweddau cemegol fel triniaethau iechyd meddwl.
<p>Gwyddorau cymdeithasol a'r gyfraith</p>	<p>Disgrifiwch a hyrwyddwch hawl neu cyfres o hawliau ar gyfer y DU.</p> <p>Mae'r cyfres o hawliau a ddefnyddiwn yn y DU wedi eu dyddio yn ôl i'r Ail Ryfel Byd. A oes angen eu diweddarau a'u uwchraddio? Oes yna bobl sydd yn cael eu tan-amddiffyn neu yn ddi-amddiffyn rhag rymoedd cryfion ar hyn o bryd? Neu, a yw hawliau yn atal ewyllys mwyafrifoedd sydd wedi eu hethol yn ddemocrataidd?</p> <p>Byddwn yn cynnig darlithoedd a seminarau gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Hanes hawliau dynol a sifil, o Hammurabi i'r Hauge. - Economeg hawliau. A yw pŵer yn arwain at hawliau? - Gwleidyddiaeth fewnol a rhyngwladol amddiffynfeydd.

Bydd y sawl sy'n mynychu yn derbyn darlithoedd, seminarau a thiworial dewisiol ar-lein sydd yn canolbwyntio ar eu pwnc o ddewis. Bydd llwyth o gyngor a chanllawiau am ymgeisio i ac astudio mewn prifysgolion blaenllaw. Mae nifer o sesiynau eraill llawn hwyl hefyd: aeth mynychwyr y llynedd i sesiynau 'morning motivation' ac 'energiser', ac roeddent yn cael eu

hannog i ddarganfod prifysgolion gyda sesiynau sgwrs a 'spotlight on...', teithiau rhithiol, a gwnaethant ddangos eu gwybodaeth gyffredinol gyda chwis hwyliog!

Ysgol Haf Breswyl Coleg yr Iesu

Yn wahanol i ysgolion preswyl UNIQ yn Rhydychen, mae [Ysgol Haf Breswyl Coleg yr Iesu](#) yn aml-bwnc ac yn canolbwyntio ar sgiliau. Er y gall hyn olygu eich bod yn ymestyn eich hunain tu allan i beth sy'n gyfforddus i chi yn academiaidd, rydym eisiau cyfeirio myfyrwyr at yr ystod eang o bynciau sydd ar gael. Rydym yn annog y sawl sy'n cymryd rhan i fod yn agored i ac archwilio sut mae disgyblaethau gwahanol yn rhyngweithio ac yn cefnogi ei gilydd ar gyfer darganfod gwybodaeth a darganfyddiadau! Thema 2022 yw "Ar y Blaen / The Cutting Edge", gan gynnwys yr hyn sy'n flaenllaw mewn llawdriniaeth, torri carbon gyda thechnoleg, cynnydd mewn cyfrifiadureg cwantwm a thechnegau naratif sy'n torri cwys newydd. Bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn mynychu darlithoedd a seminarau mewn pynciau amrywiol. Byddant hefyd yn ysgrifennu traethawd byr i'w drafod mewn sesiwn diwtorial yn ystod yr wythnos (gweler yr adran pa waith sydd angen i mi ei wneud isod am fwy o fanylion). Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys gweithdai ceisiadau prifysgol, sesiwn dadl, ymweld ag amgueddfeydd, swper dathlu gyda'r nos a nifer o gyfleoedd i ddarganfod Rhydychen!

Gallwch ddarganfod recordiadau o nifer o ddarlithoedd a seminarau o ysgolion haf 2020 a 2021 ar ein [Sianel YouTube](#).

Pwy all ymgeisio?

Er mwyn ymgeisio ar gyfer ysgolion haf Seren - Coleg yr Iesu, mae'n RHAID i chi fod yn ddysgwr Academi Seren sydd ym mlwyddyn 12 ar hyn o bryd ac yn mynychu ysgol neu goleg gwladwriaeth sydd yn cymryd rhan yn rhaglen Seren.

Sut alla i ymgeisio?

Dylech ymgeisio ar-lein drwy ein ffurflen gais yma:

<https://ams.jesus.ox.ac.uk/Forms/url/SerenSS2022>

Mae pob rhan o'r cais yn cael eu cyflwyno gyda'r ffurflen hon. Rydym yn awgrymu i chi ddarllen y ffurflen yn ofalus a pharatoi popeth sydd ei angen arnoch mewn da bryd. Ni fydd unrhyw geisiadau sy'n cael eu gyrru ar ffurf wahanol megis e-bost yn cael eu derbyn.

Dyddiad cau

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich cais yw HANNER DYDD (12yp) dydd Gwener 28 Ionawr 2022. Rydym yn awgrymu yn gryf NA DDYLECH adael eich cais tan y funud olaf! Bydd y ffurflen gais yn cau am 12:00 union ac ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Anelwn i adael pob ymgeisydd wybod os yw eu cais yn llwyddiannus ai peidio ar ddydd Gwener 29 Ebrill 2022. Byddwn yn gadael i ymgeiswyr wybod os ydym yn digwyl unrhyw oedi wedi'r dyddiad hwn.

Datganiad personol a thraethawd

Bydd rhaid i chi gynnig datganiad personol a thraethawd byr (500 gair yr un) fel rhan o'r broses ymgeisio - mae cyfarwyddiadau ar gyfer hyn yn y ffurflen gais. Mae'n rhaid i'r traethawd a'r datganiad personol gael eu cynnwys yn y ffurflen gais ble nodir lle i wneud hynny. Mae ceisiadau yn cael eu asesu yn anhysbys felly peidiwch â nodi eich enw nag unrhyw wybodaeth sy'n cyfeirio at eich hunaniaeth o fewn eich datganiad personol neu destun y traethawd.

Nid ydym yn cynnig canllawiau unigol ar gyfer eich datganiad personol a'ch traethawd, ond, efallai y byddwch yn gweld y ffilmiau hyn ar ein sianel YouTube yn ddefnyddiol a diddorol: [How to PREP & WRITE an AWESOME personal statement!!](#); [Oxford Uni Essay Writing Workshop!!](#); a [a REAL OXFORD tutorial on ESSAY WRITING!!](#).

Noder y canlynol:

- **Anhysbysrwydd:** Mae ceisiadau yn cael eu asesu yn anhysbys, felly peidiwch â chynnwys eich enw neu unrhyw wybodaeth sy'n cyfeirio at eich hunaniaeth o fewn eich datganiad personol, neu destun y traethawd.
- **Fformatu:** Dylai'r traethawd a'r datganiad personol gynnwys testun yn unig - PEIDIWCH A CHEISIO CYNNWYS LLUNIAU, AYB. Peidiwch â phoeni os yw gosodiad eich datganiad personol neu draethawd yn newid pan mae'n cael ei ludo yn yr adran berthnasol yn y ffurflen gais. Bydd y cais yn dod trwodd ar ein ochr ni mewn fformat penodol felly nid yw'r gosodiad yn bwysig.
- **Cyfeiriadaeth:** Nid yw rhestr gyfeiriadaeth/llyfrddiaeth yn angenrheidiol ac nid yw'n cael ei gynnwys yn y nifer o eiriau. Mae croeso i chi gynnwys un ond ni fydd hyn yn dylanwadu ar sut mae eich traethawd neu ddatganiad personol yn cael ei farcio.
- **Uchafswm geiriau:** mae uchafswm o 500 gair yr un ar gyfer y traethawd a'r datganiad personol. Peidiwch â mynd dros hyn os gwelwch yn dda. Nid yw'n anarferol i brifysgolion farcio gwaith i lawr neu gapio nifer y marciau sy'n bosibl ar gyfer gwaith sy'n mynd dros nifer cyfyngedig y geiriau. Byddwn yn cymryd y nifer o

eiriau i ystyriaeth wrth asesu eich cais, felly cymrwch hyn fel ymarfer defnyddiol at y dyfodol!

Cynnwys canolwr

O fewn y ffurflen gais, bydd rhaid i chi ddarparu manylion cyswllt ar gyfer canolwr (e.e. eich athro neu gydlynnydd Hwb Seren) all gynnig geirda byr i gefnogi eich cais. Gwnewch yn siwr eich bod yn gofyn iddynt yn gyntaf a dywedwch wrthynt nad oes rhaid iddynt wneud unrhyw beth eto. Byddwn mewn cyswllt gyda nhw ar ôl y dyddiad cau gyda chyfarwyddyd ar sut hoffem iddynt gyflwyno'r geirda.

Oes unrhyw gostau ynghlwm â cymryd rhan?

Mae'r ddwy Ysgol Haf yn RHAD AC AM DDIM. Ar gyfer y rhaglen [Breswyl](#), Ysgol Haf Breswyl Coleg yr Iesu mae llety a phrydau yn cael eu darparu a byddwn yn ad-dalu costau teithio rhesymol i ac o Gymru. Bydd mwy o ganllawiau ac Amodau a Thelerau yn cael eu darparu i'r sawl sy'n cael eu derbyn.

Erbyn pryd fydd rhaid i mi gyrraedd?

Mae'r [Ysgol Haf Ryngwladol Ar-lein Seren](#) yn para rhwng dydd Llun 18 Gorffennaf - dydd Gwener 29 Gorffennaf 2022. Bydd yr amserlen o ddydd Llun - Gwener a bydd gweithgareddau yn cymryd lle rhwng 9yb-6yh. Rydym yn deall bod pythefnos yn amser hir i ymroi cymaint o amser i'r fath raglen ac bod gennych waith a chyfrifoldebau gofal a chyfrifoldebau personol eraill neu anghenion i'w hystyried. Rydym yn annog ymgeiswyr llwyddiannus i fynychu cymaint o'r rhaglen â phosib, ond, bydd hyblygrwydd gyda phresenoldeb. Bydd canllawiau pellach ac amserlen yn cael eu gyrru at fynychwyr yn agosach at yr amser.

Mae [Ysgol Haf Breswyl Coleg yr Iesu](#) yn para o ddydd Llun 15 - dydd Gwener 19 Awst 2022. Bydd y rhaglen yn dechrau oddeutu 1:30yh ar y dydd Llun ac yn gorffen tua 12:30yh ar y dydd Gwener. Bydd disgwyl i'r mynychwyr fod yn bresennol ar gyfer y rhaglen gyfan. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn canllawiau pellach ac amserlen yn agosach at yr amser.

Sut fath o beth yw'r amserlen?

Prysur ond difyr! Fel dywedir uchod, bydd mynychwyr yn mynd i nifer o weithgareddau a sesiynau academaidd amrywiol yn y ddwy raglen. Fodd bynnag, nid yw pob sesiwn yn orfodol a bydd egwyl i'w gael yn ystod y dydd. Bydd disgwyl i chi gwblhau peth gwaith, ond bydd hyn rhesymol - gweler isod.

Pa adnoddau fydd eu hangen arna i?

Ar gyfer yr [Ysgol Haf Ryngwladol Ar-lein Seren](#), bydd angen cysylltiad rhyngrwyd a dyfais sy'n cysylltu gyda'r we sydd yn eich galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar-lein gan ddefnyddio rhaglenni fideo-gynadledda a phlatfformau gwe eraill. Bydd cyfarwyddyd llawn a chefnogaeth ar gyfer anghenion ychwanegol yn cael eu darparu i fynychwyr yn agosach at yr amser.

Ar gyfer [rhaglen Breswyl Coleg yr Iesu](#), bydd angen yr eitemau arferol ar gyfer arhosiad 4-noson arnoch. Bydd pryddau a llety yn cael eu darparu a gallwn wneud addasiadau rhesymol ar gyfer anghenion unigol gan gynnwys anghenion bwyd, iechyd a dysgu. Byddwn yn cysylltu â'r sawl sy'n cymryd rhan o flaen llaw gyda chyfarwyddiadau ac i drafod cefnogaeth ar gyfer anghenion ychwanegol.

Os ydwi i'n derbyn lle, pa waith sydd angen i mi ei wneud?

Ar gyfer yr [Ysgol Haf Ryngwladol Ar-lein Seren](#), byddwch yn cynhyrchu adroddiad project (o tua 2000 o eiriau) ar gyfer eich pwnc o ddewis. Bydd y sesiynau academaidd yr ydych yn eu mynychu yn helpu i ehangu a datblygu eich meddwl beirniadol a sgiliau dadansoddi sydd eu hangen ar gyfer hyn. Bydd hefyd digon o gefnogaeth gyda datblygu eich project drwy gydol y rhaglen.

Yn [rhaglen Breswyl Coleg yr Iesu](#), bydd mynychwyr yn ysgrifennu traethawd byr i baratoi ar gyfer y rhaglen. Mae hyn yn anghenraid hollbwysig i'w gwblhau cyn mynychu oherwydd bydd eich traethawd yn sail ar gyfer y sesiwn twitorial. Fodd bynnag, PEIDIWCH Â PHOENI AM HYN! Byddwn yn cynnig canllawiau a chynghor i'ch helpu.

All fy rhiant/gwarchodwr fynychu?

Mae'r ysgolion haf ar gyfer mynychwyr yn unig. Ar gyfer y sawl sydd ar y rhaglen breswyl, mae croeso i rieni/gwarchodwyr ddanfôn mynychwyr i Goleg yr Iesu ar y dechrau a/neu eu cyfarfod yn y Coleg pan mae'r rhaglen yn gorffen. Noder mai ar gyfer y mynychwr yn unig y byddwn yn darparu costau teithio.

Manylion Cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ysgolion haf, cofiwch gysylltu. Dyma'r manylion cyswllt:

Dr Matt Williams, Cymrawd Mynediad, E: matthew.williams@jesus.ox.ac.uk.

Ms Shelley Knowles, Cynorthwydd Mynediad a Derbyn, E: shelley.knowles@jesus.ox.ac.uk.